PWYLLGOR CENEDLAETHOL COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD 12 CHWEFROR 2010
YNG NGHAERDYDD

Yn Bresennol:	Jon Owen Jones, Cadeirydd	Judith Webb
	Roger Cooper	John Lloyd Jones
	Trefor Owen	Rory O'Sullivan
	Clive Thomas	
Ymddiheuriadau:	Peter Garson	
Yno hefyd:	Pamela Warhurst	Tim Rollinson
	Richard Siddons	Derek Stephen
	James Laing (Ysgrifenyddiaeth)	

CYFLWYNIAD

1. Croesawodd JOJ Tim Rollinson a Pamela Warhurst. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan PG

COFNODION A MATERION YN CODI

2. Derbyniwyd cofnodion 20 Tachwedd fel rhai cywir.

3. Diolchodd RC i TMO am y papur Briffio Biomàs. Holodd ynglŷn â'r prisiau am fyrnau tocion a phren crwn byr. Atebodd TMO mai dau gynnyrch ar wahân oedd y rhain a'u bod nhw wedi eu gwerthu trwy dendrau agored a chystadleuol. Er nad yw'r incwm o fyrnau tocion yn fawr, mae'r arbedion anuniongyrchol ar reoli llystyfiant ger ymyl ffyrdd yn sylweddol.

4. Ailadroddodd RC ei bryder ynglŷn â pherthnasedd Mesurau Perfformiad lle nad oedd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru unrhyw ddylanwad na rheolaeth. Trafodir hyn ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cenedlaethol.

RHAGOLWG Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL

5. Rhoddodd Tim Rollinson ddiweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â Newid yn yr Hinsawdd, Mannau Glas Trefol, Ynni Adnewyddadwy, Bioddiogelwch a materion Byd-eang. Amlygodd JOJ yr angen i gyflawni gwerth am arian ar bob rhaglen. Atebodd Tim Rollinson y gellid cyflawni hyn trwy raglenni cydlynol. Amlinellodd y potensial ar gyfer buddsoddi o arian sector preifat, cyhyd â bod yr amodau a'r fframwaith rheoleiddiol yn gywir.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR

6. Dechreuodd TMO ei adroddiad trwy ragweld cynnydd yn y farchnad ar gyfer tai newydd, gan arwain at optimistiaeth ar gyfer y farchnad bren yn y flwyddyn ariannol nesaf. Gofynnodd JW a oedd y tywydd drwg diweddar wedi effeithio ar y rhwydwaith heolydd coedwig. Cadarnhaodd TMO fod peirianwyr Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi monitro'r sefyllfa'n ofalus trwy'r cyfnod hwn ac nad oeddent yn rhagweld i gostau cynnal a chadw'r ffyrdd fod yn uchel. Amlinellodd TMO hefyd gynnydd y broses caffael coed tân.

7. Roedd JLJ am ddadansoddi'r ffigurau Coetiroedd Gwell i Gymru yn yr adroddiad. Atebodd TMO y câi hyn sylw dan eitem agenda 5. Ychwanegodd fod ffigurau Coetiroedd Gwell i Gymru yn cyfrannu at dargedau creu coetiroedd yn y Cynllun Corfforaethol. Mater i Weinidogion yw unrhyw dargedau creu coetir tymor hwy a mwy uchelgeisiol. Bydd y Gweinidog yn rhoi rhagor o ystyriaeth i'r mater hwn yn ei hymateb i argymhellion gan y Gweithgor Newid yn yr Hinsawdd a Defnydd Tir.

8. Holodd ROS ynglŷn ag effeithiolrwydd cyfathrebu Comisiwn Coedwigaeth Cymru ynghylch targedau megis Nant-yr-arian, a oedd yn cynnwys cyfranogiad y Gweinidog/AC. Tynnodd TMO sylw at y ffaith bod Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn defnyddio mesurau meintiol ac ansoddol i fesur effeithiau positif. Datgelodd y data diweddaraf fod Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar hyn o bryd yn gwneud yn well na'i darged ar gyfer cyfathrebu allanol.

9. Mesurau Perfformiad a Busnes – Rhoddodd TMO ddiweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â'r Mesur Cynaladwyedd Busnes, sydd bellach yn ambr, nid yn goch. Mae elfen feintiol y Mesur Busnes Cyfathrebu yn ambr ar hyn o bryd ac mae angen ei monitro.

ADRODDIAD CYLLID

10. FY09/10 Cadarnhaodd DS y bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cyflwyno'r cyfrifon wedi'u hailddatgan erbyn dyddiad terfyn y Pwyllgor Archwilio a Risg.

11. FY10/11 – Nododd DS nad oedd llawer wedi newid ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor. Roedd arian wedi'i neilltuo ar gyfer Blwyddyn Ariannol 10/11 er mwyn ymdopi â gostyngiadau yn y gyllideb trwy ddefnyddio'r mecanwaith Cronfa Ariannu Hyblyg. Gofynnodd JOJ pam nad yw arian yn cael ei neilltuo mewn rhai o feysydd penodol y busnes. Atebodd DS fod modd bod yn fwy

hyblyg trwy beidio â neilltuo arian, wrth i ni alinio'r Cynllun Corfforaethol â phrosesau Cynllunio Busnes.

12. Dywedodd ROS wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n dadansoddi allbynnau ac yn ystyried effaith gostyngiad cyffredinol o 5% ar draws y bwrdd o fis Ebrill 2011. Ychwanegodd Tim Rollinson na allai Comisiwn Coedwigaeth Cymru wneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd. Roedd angen trafodaeth aeddfed gyda'r Llywodraeth i roi cyngor ynglŷn â thoriadau posibl.

13. Nododd y pwyllgor y sefyllfa bresennol.

CYFEIRIAD STRATEGOL AR GYFER GRANTIAU COETIR

14. Cyflwynodd Richard Siddons ei bapur am grantiau coetir. Gofynnodd JLJ ynglŷn â ffigurau'r cynllun Coetiroedd Gwell i Gymru ac awgrymodd fod y cynllun yn rhy soffistigedig i berchnogion coetiroedd bach. Roedd JLJ yn poeni taw canran fach o'r ceisiadau yn y system oedd yn llwyddo. Cytunodd Richard Siddons fod rhai Cynllunwyr Rheoli yn dal i gael trafferthion gydag elfennau o'r cynllun a chadarnhaodd ddibyniaeth y cynllun ar Gynllunwyr Rheoli i symud ceisiadau yn eu blaen. Atgoffodd y Pwyllgor o ddatblygiad " Coedydd Bach Coetiroedd Gwell i Gymru" a "Chamau Cyntaf" er mwyn ymdrin â chynlluniau llai. Wrth grynhoi, dywedodd TMO fod Coetiroedd Gwell i Gymru wedi'i ddatblygu fel ymateb i gyflawni rheolaeth goetir gynaliadwy. Erbyn hyn mae pedair blaenoriaeth ar gyfer grantiau. Roedd y papur hwn yn gofyn i'r Pwyllgor am gyfeiriad strategol gan *Goetiroedd i Gymru*. Ychwanegodd JW fod angen meddwl yn ofalus wrth ddarparu grantiau. Roedd perygl bob amser o ddatgysylltu oddi wrth elfennau o'r sector a oedd eisoes â chyswllt effeithiol. Roedd ROS am i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru gydweithio'n agos â'r Adran Materion Gwledig er mwyn deall goblygiadau'r newidiadau arfaethedig i Goetiroedd Gwell i Gymru. Gofynnodd JOJ a oedd y cynllun presennol yn gost effeithiol. Holodd JLJ ynglŷn â'r gwariant ar grantiau, gweinyddu, a manteision cynlluniau o'r fath.

15. Cymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhelliad ym mharagraff 18.

Gweithredu: Darparu ffigurau manwl i'r Pwyllgor ynglŷn â gwariant y Cynllun Corfforaethol ar grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru ar gyfer 2009/10 erbyn diwedd Ebrill 2010 — **Richard Siddons**

RHAGLEN FFERMYDD GWYNT YR YSTAD GOEDWIG GENEDLAETHOL

Y Pwyllgor Cenedlaethol

Rhannodd DS ei adroddiad gan dynnu sylw at y ffaith y byddai adnoddau rhaglenni yn cyrraedd eu penllanw dros y 5- 8 mlynedd nesaf. Ei flaenoriaeth bennaf oedd cael staff i lenwi swyddi er mwyn ymdrin ag ymrwymiadau cytundebol. Roedd y Pwyllgor Cynllunio Seilwaith (IPC) yn datblygu ei swyddogaeth a rhaid paratoi deiliaid opsiynau cyn iddynt fynd gerbron y Pwyllgor. Cadarnhaodd ROS na fydd swyddogaeth y Pwyllgor yr un fath yng Nghymru ag yn Lloegr. Amlinellodd RC drafodaethau parhaus ynglŷn â datgoedwigo ac ardystio. Nododd y pwyllgor y sefyllfa bresennol.	
DARLLENWYD ADRODDIAD AM LANSIAD YN Y SENEDD Cadarnhaodd CT taw'r dyddiad lansio fyddai 16 Mawrth. Hefyd byddai digwyddiad i'r sector ar 18 Mai. Gofynnodd JW a JOJ am fwy o gyfathrebu strategol er mwyn cael mwy o gyhoeddusrwydd a denu rhagor o bobl i'r digwyddiad ym mis Mawrth.	
Gweithredu: Y Tîm Cyfathrebu i hyrwyddo'r digwyddiad yn y Senedd.	**TMO**
RHAGOLWG Y PWYLLGOR CENEDLAETHOL 2010 Nododd y Pwyllgor y Rhagolwg 2010.	
Unrhyw Faterion Eraill <u>Partneriaeth Cyswllt Niwbwrch</u> – Adroddodd RC fod y Bartneriaeth yn teimlo rhwystredigaeth oherwydd arafwch cynnydd yr adolygiad gwyddonol. Nid oedd consensws yn debygol, ac felly byddai'n rhaid cael cyflafareddu. Cyflwynodd RC awgrym gan y Bartneriaeth y gellid cael dau gynllun rheoli (un ar gyfer y darn sy'n destun adolygiad gwyddonol ac un ar gyfer y darn arall). Awgrymodd fod angen i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru fod yn rhagweithiol er mwyn symud y materion yn eu blaen.	
Gweithredu: Chwilio am gyfle i gynnal cyfarfod nesaf y Bartneriaeth o fewn 2 - 3 mis.	**PG**

Y Cyfarfod Nesaf – 26 Mawrth yn Swyddfa Llywodraeth y Cynulliad, Aberystwyth.